CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, Gorffennaf 6ed, 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mr John W Jones, Mr Brinley Owen, a Mr David Williams, Mr Huw Lloyd, Mrs. Rhiannon Jones a Mrs Anne Williams.

Cyhoedd: Mr Bryn Roberts
Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **Ymddiheuriadau:** Mr. Geraint Jones, a Mrs. Becky Mollison-White

3. **Cofnodion cyfarfod Chwefror 2il, 2018**
   Fe'u cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   - **EISTEDDFOR YR URDD** – Penderfynu i beidio gyrru y llythyr am y tro. Ocsiwn addewidion yn cael ei gynnal ym mis Medi yn Gynwyd.
   - **CYFLWR FFYRDD –** clerc i Gysylltu â Mabon i ddilyn y mater, a Gaenor i yrru e-bost i'r cyngor hefyd.

5. **Gohebiaeth**
   - Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru – Dydd Sadwrn, Medi 29ain. Neb am fynychu
   - Gwahoddiad gan Gadeirydd Cyngor sir Ddinbych i'w Wasnanaeth dinesig yn Llanelwy, 23ain Medi.
   - E-bost yn ein hysbysu am gau ffordd Branas o 23/7/2018 hyd 15/9/2018
   - E-bost gan Amy Selby – yn gofyn am wybodaeth am offer sydd gan y Cyngor Gymuned yn fodlon ei rannu. Teimlo nad yw ein offer yn ddigon diweddar i'w logi allan.

6. **Materion Cynllunio**
   - Wedi derbyn Mater cynllunio gan Cyngor Cymuned Cynwyd – adeiladu Sied yn Cwm Ucha'. Dim gwrthwynebiad.

7. **Materion Ariannol**
   - Clerc wedi cysylltu â cwmni AVOW – ac yn fodlon cwblhau y gwaith cyflog am flwyddyn (yn cynnwys P60, pensiwn ayyb) am £50 y flwyddyn
   - Wedi derbyn anfonebau gan ...
     - Brian Edwards – paentio giât y fynwent - £256 (100090)
     - Russell Helsby – torri gwaith fynwent (Ebrill – Gorffennaf) - £1000 (100091)
     - Richards Moody – torri gwair cae chwarae – Mehefin 2 waith - £120 (100092)

- Bronwen Evans – blodau - £160 (100093)
- Gaenor Richards – postio awdit allanol *recorded delivery* - £7.30 (100095)

- **Awdit Allanol** – Darllenwyd llythyr adroddiad yr Awdit allanol gan Maria. Fe nodwyd yn adroddiad gan Maria am £35 a dalwyd yn fyr ar un infois i'r Cae Chwarae. Mae credyd am y swm yma – y clerc i ofyn i Chris Linder am gopi. Dymuna'r Cynghorwyr ddiolch iddi am ei chymorth a'i hamser yn cyflawni y dasg yma, a penderfynwyd rhoi £100 fel tocyn o werthfawrogiad. (100094)

8. GDPR

- Wedi cynnwys materion y GDPR yn yr Asesiad Risg.

9. Asesiad Risg

- Clerc wedi creu Asesiad Risg o hen dempled, a'i addasu i gynnwys materion mwy diweddar. Y Cynghorwyr yn fodlon ar y drafft, ac fe'i mabwysiadwyd a'i harwyddo gan y Cadeirydd. Angen ei ail wirio yn 2019.

10. Unrhyw Fater Arall

- **Gwefan Cyngor Cymuned Llandrillo –** gan nad oes gan y clerc fynediad i'r gwefan presennol, gan ei fod ynghlwm a chyfrif personol y Cynghorwr Sir, penderfynwyd i greu gwefan o'r newydd.
- **Fynwent –** Daeth i sylw y cynghorwyr y bod un carreg fedd wedi'u gosod gyda 'kerbstone'. Mae'n nodi ar daflen gostau'r fynwent, ni chaniateir 'kerbstones' yn y fynwent i hwyluso torri gwair. Clerc i yrru copi o'r daflen i ymgymerwyr lleol i'w hatgoffa. Hefyd i roi copi i fyny yn porth y fynwent. Fe gytunwyd i barhau gyda'r prisiau presennol ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.
- **Cyflwr Ffyrdd –** y clerc i ddilyn y mater o'r ffordd o flaen Godre'r Berwyn a llwybr ger Bro Dinam.
- **Llwybr gerdded / Ffordd Wern –** mae cyflwr y ffordd yn ddifrifol, ac yn cael ei ddefnyddio gan bentrefwr mewn cerbyd 'mobility'. Mae'r rhai o'r tyllau yn ddwfn, ac yn beryg i'r sgwter troi drosodd.
- **Methane Digester, Hendwr** – mae drewdod yn dod o'r gwaith. Aros nes i'r tywydd poeth basio cyn cymryd camau pellach. Fe all unigolion yrru at Sir Ddinbych.
- **Ffordd Gefn Gwerclas** – gyda'r ffordd Branas yn cau, bydd mwy o ddefnyddio ar y ffordd gefn, ac mae'r coed ger Gwerclas wedi gor-dyfu. Hysbysu Mabon i ddilyn y mater.
- **Cae Chwarae** – Bryn yn adrodd - Y pyst gôl i fyny erbyn hyn. Offer yn cael eu cadw yn sied yr Hen Ysgol ar hyn o bryd nes y daw '*container'*. Cynhelir cyfarfod yn fuan i drafod sut all y cyhoedd mynediad i'r offer chwaraeon.
- **Cae Bach yr ysgol** – dal heb ei dorri. Clerc i hysbysu Mabon ac i gysylltu â'r Sir.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……